# CYD-GYFARFOD PENDERFYNIADAU'R AELODAU O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT AC ADNODDAU

## DYDD MERCHER, 5ED HYDREF, 2016

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd G.O. Jones [yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant]
Y Cynghorydd D.M. Jenkins [yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau]

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**

| | | |
|---|---|---|
| Mr R. Bowen | - | Swyddog Prosiectau Datblygu Ysgolion |
| Mr P. Edwards | - | Rheolwr Prisiadau |
| Mrs M. Evans Thomas | - | Pen-swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Mrs J. Owen | - | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ystafell 72A, Neuadd y Sir, Caerfyrddin : 2.00 p.m. – 2.15 p.m.**

### 1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

### 2. Y RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG - CYNNIG I DROSGLWYDDO TIR Y CYNGOR SIR I BERCHENOGAETH ESGOBAETH MYNYW, YSGOL GATHOLIG SANT IOAN LLWYD, LLANELLI

Bu'r Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad ynghylch cynnig i drosglwyddo tir y Cyngor Sir i berchenogaeth Esgobaeth Mynyw yn Ysgol Gatholig Sant Ioan Llwyd, Llanelli.

Ym mis Ebrill 1989, cafodd hen adeilad Ysgol Sant Ioan Llwyd, a adeiladwyd ar dir Esgobaeth, ei ddymchwel yn dilyn tân a ddinistriodd yr adeilad ysgol yn llwyr. Er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn gwbl weithredol cyn gynted â phosibl, gosodwyd ystafelloedd dosbarth symudol ar y safle fel cam dros dro tra bo adeilad ysgol newydd yn cael ei adeiladu ar dir y Cyngor Sir.

Ym mis Awst 2016 cymeradwyodd Llywodraeth Cymru fuddsoddiad o £3.2 miliwn i adeiladu bloc gwyddoniaeth newydd, helaethu'r neuadd chwaraeon bresennol a gwneud gwaith adnewyddu mawr yn yr ystafelloedd dosbarth yn y prif adeilad. Fel rhan o amodau grant Llywodraeth Cymru (Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 Rhan 3 - Trosglwyddo Tir) mae'n rhaid i adeilad newydd gael ei adeiladu ar dir Esgobaeth.

Er mwyn mynd ati i adeiladu'r bloc gwyddoniaeth newydd a'r man chwarae amlddefnydd yn Ysgol Sant Ioan Llwyd, byddai angen i'r Awdurdod drefnu trosglwyddo tir y Cyngor Sir i berchenogaeth Esgobaeth Mynyw. Ni fyddai angen i'r Esgobaeth dalu am y tir a byddai'r Cyngor Sir a'r Esgobaeth yn talu am eu costau eu hun mewn perthynas â'r trafodiad.

Byddai'r cynllun arfaethedig yn Ysgol Sant Ioan Llwyd yn ymateb i'r galw o ran disgyblion yn y dyfodol ac yn yr hirdymor byddai maint yr ysgol yn addas i

ddarparu ar gyfer y cynnydd a ragwelir yn nifer y disgyblion erbyn 2026, a thrwy hynny diogelu'r ddarpariaeth uwchradd seiliedig ar ffydd yn Sir Gaerfyrddin.

**PENDERFYNWYD**

**2.1 cymeradwyo trosglwyddo tir y Cyngor Sir i Etholaeth Mynyw er mwyn i waith adeiladu gael ei wneud yn Ysgol Gatholig Sant Ioan Llwyd, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013;**

**2.2 na fydd angen i'r Esgobaeth dalu am y tir ac y bydd y Cyngor Sir a'r Esgobaeth yn talu am eu costau eu hun mewn perthynas â'r trafodiad.**

______________________-__________ ___________________

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**